**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 16 Chwefror 2021**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | STRATEGAETH AR NEWID HINSAWDD A NEWID ECOLEGOL CYNGOR SIR DDINBYCH (2021 - 2029) | ***PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn –*<br><br>*(a) argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22-2029/30), ac yn*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad A o'r adroddiad) i ystyriaeth fel rhan o'i benderfyniad.* |
| **6** | ADOLYGU'R POLISI ENWI A RHIFO STRYDOEDD | ***PENDERFYNWYD** y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r newidiadau canlynol i'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd –*<br><br>*(i) bod strydoedd newydd yn cael eu henwi yn Gymraeg yn unig, a*<br><br>*(ii) bod y dewis i enwi strydoedd ar ôl unigolion yn cael ei dynnu o'r polisi.* |
| **7** | RHAGLEN TRAWSNEWID TREFI LLYWODRAETH CYMRU | ***PENDERFYNWYD** (yn dilyn cymeradwyaeth wreiddiol y Cyngor ar 22 Mai 2018) y dylai'r Cabinet gymeradwyo awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol**:** Economi a'r Parth Cyhoeddus mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) ar gyfer blynyddoedd ariannu 2021-22 (Blwyddyn 4) a 2022-23 (Blwyddyn 5) er mwyn –* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(i) gwneud unrhyw geisiadau cyllido prosiect sy’n angenrheidiol i sicrhau adnoddau o’r rhaglen Trawsnewid Trefi ar gyfer cyfnod ei weithrediad;*<br><br>*(ii) derbyn a gweithredu gwariant ar brosiectau sy’n cael mynediad i gefnogaeth rhaglen Trawsnewid Trefi, yn cynnwys dyfarnu grantiau i drydydd parti;*<br><br>*(iii) ailnegodi ac ymgymryd ag unrhyw gytundebau newydd gyda chynghorau eraill gogledd Cymru fel bo’r angen i ymgeisio neu i dderbyn arian rhaglen Trawsnewid Trefi, a*<br><br>*(iv) chytuno ar unrhyw newidiadau/diweddariadau a wneir i Gynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru (RRP).* |
| **8** | ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD** bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad er mwyn eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2021/22 yn cael eu cefnogi a’u hargymell i'r Cyngor llawn.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** y byddai’r Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn*<br><br>*(b) cymeradwyo sefydlu cronfa wrth gefn i ganiatáu i Sir Ddinbych Yn Gweithio reoli’u harian yn fwy effeithiol.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*. |